Y Cynghorydd
Councillor
**Sion Jones**
Ward – Bethel a Llanddeiniolen

12fed o Awst, 2016



**Cynllun Datblygu Lleol – Bethel**

**Ymateb i'r Newidiadau a Ffocws – Bethel**

**Annwyl Syr / Madam,**

Dwi wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda trigolion Bethel yn ystod y blynyddoedd dwythaf i sicrhau bod llais y gymuned yn cael ei chyfarch yn ystod y broses Cynllun Datblygu Lleol ym Methel. Er hynny, dwi wedi trio fy ngorau glas i gyd-weithio gyda Cyngor Gwynedd er mwyn rhoi drosodd lleisiau y gymuned, ac ar adegau mae hynny wedi bod yn rhwystredig dros ben.

Yn ystod y Cynllun Adnau, mi roedd y tir tu ol i Saron wedi'i fabwysiadu fel tir cymwys ar gyfer datblygu, ond yn ystod y broses 'Newidiadau a Ffocws', penderfynodd y swyddogion newid y tir tu ol i Saron i ddwy dir arall ym Methel, sef dros y ffordd i Cremlyn am 28 o dai, a tir gyferbyn Rhoslan am 12 o dai. Y sail i'r penderfyniad oedd bod tir tu ol i Saron efo planhigion arbennig yn yr adroddiad bioamrwyaeth.

Rydym wedi ymgyrchu yn erbyn y penderfyniad yma am nifer o rhesymau. Rydym yn gwerthfawrogi yr angen o gyfarch y ffigwr o 40 o dai ym Methel, ac wedi derbyn hynny. Mae safle Cremlyn yn gymwys i'r Cynllun newydd. Rydym yn apelio i'r arolygydd ail-edrych ar sefyllfa y tir dros y ffordd i Rhoslan, nid yn unig mae'r tir yma wedi'i wrthod dwy waith drwy broses apel y Llywodraeth, ond mae ganddo hefyd mwy o ddiddordeb arbennig o rhan bioamrwyaeth.

Mae rhan helaeth o gymuned Bethel o blaid datblygu ar y tir tu ol i Saron, er hynny, mi dderbynais deiseb gan 5 teulu yn Saron yn ei erbyn. Rydym wedi cynnal cyfarfodydd cyhoeddus i drafod y bwriad gyda'r Cynllun Datblygu Lleol ym Methel, ac mi roedd pobl Bethel o blaid y safle gyferbyn a Cremlyn, yn erbyn tir Rhoslan, ac o blaid y tir tu ol i Saron. Dwi'n credu ei fod yn bwysig dros ben cyfarch anghenion a gofynion y gymuned pan mae'n dod i ddyfodol cynllunio Bethel.

Mae'r tystiolaeth yn dangos bod yr adroddiad bioamrwyaeth gwreiddiol wedi'i iw wneud ar y safle Saron yn anghywir, ac erbyn nawr mae perchennog y tir tu ol i Saron wedi archebu adroddiad o'r newydd ar y safle sy'n gwrth-ddweud beth mae'r adroddiad gwreiddiol (Ac sail penderfyniad y Cyngor i newid safleoedd yn ystod y Newidiadau a Ffocws).

Y Cynghorydd
Councillor
**Sion Jones**
Ward – Bethel a Llanddeiniolen

12fed o Awst, 2016

Felly, y cynnig sydd gennym ni yw bod y tir tu ol i Saron yn cael ei fabwysiadu yn y cynllun yn hytrach ‘na y tir gyferbyn Rhoslan am rhesymau bod yno fwy o ddiddordeb i gadw y tir yma am rhesymau biolegol. Nid oes unrhyw rhesymau biolegol wedi nodi yn yr adroddiad bod y tir tu ol i Saron ddim yn gymwys.

**Sion Jones**

**Cynghorydd Bethel**